



Llyr Gruffydd AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid

SeneddFinance@senedd.wales

23 Rhagfyr 2020

Annwyl Llyr Gruffydd AS,

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 18 Tachwedd. Fel y cadarnhaodd y Cwnsler Cyffredinol ar 11 Tachwedd yn y Cyfarfod Llawn, daeth ei gyfrifoldebau Gweinidogol o ran adfer yn sgil Covid i ben adeg cyhoeddi *Ail-greu ar ôl Covid-19: Yr Heriau a'r Blaenoriaethau* ym mis Hydref.

Blaenoriaeth bwysicaf y Llywodraeth yw ymateb i'r argyfwng iechyd cyhoeddus parhaus, gan fanteisio i'r eithaf ar y technolegau profi sy'n dod i'r amlwg sydd ar gael inni a darparu rhaglen frechu rhag Covid-19.

Ar yr un pryd, rydym yn bwrw ymlaen â'r blaenoriaethau ail-greu a nodir yn y ddogfen. Mae'n hanfodol bod Llywodraeth Cymru yn ei chyfanrwydd yn bwrw ymlaen ag adfer yn sgil Covid ac nad yw'r adferiad yn cael ei ystyried yn gyfrifoldeb i un Gweinidog yn unig. Mae ein blaenoriaethau ar gyfer adfer yn ymestyn ar draws ein holl swyddogaethau fel Llywodraeth, yn awr ac yn y dyfodol.

Fel y nodwyd yn yr ohebiaeth a gawsoch, mae'r cyfrifoldeb dros reoli a chyflawni'r blaenoriaethau hyn bellach wedi'i symud i Weinidogion y portffolios perthnasol.

Y Gweinidogion sydd yn y sefyllfa orau i sicrhau bod y blaenoriaethau uniongyrchol o fewn eu portffolios yn cael eu cyflawni a gallant ganolbwyntio eu polisiau a'u rhaglenni i gyd-fynd â'r blaenoriaethau ar gyfer adfer. Nhw all benderfynu orau pa waith pellach y gallai fod ei angen o fewn yr adnoddau sydd ar gael iddynt, i roi'r blaenoriaethau hyn ar waith.

Fel y nododd y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd yn y Senedd ar 6 Hydref, bydd yr wyth blaenoriaeth a nodwyd yn *Ail-greu ar ôl Covid-19: Yr Heriau a'r Blaenoriaethau* yn llywio ein trafodaethau ar y gyllideb. Mae rhagor o fanylion ar gael yn y Gyllideb ddrafft a gyhoeddwyd ar 21 Rhagfyr.

Yn gywir

MARK DRAKEFORD

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
YP.PrifWeinidog@llyw.cymru • ps.firstminister@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.